

Er bod sawl ymgyrch a sylw wedi bod yn y wasg ar y mater, nid oes dull pendant wedi ei adnabod ynglŷn â sut i ymdrin â'r broblem o faw cŵn.

Mae felly yn parhau i fod yn sialens i'r llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae'r ffaith fod cyn lleied o ymchwil wedi ei gyhoeddi ar sut i ymyrryd a'r broblem o faw cŵn, yn ei wneud yn anodd darganfod datrysiad grymus i'r mater. Mae'r papur hwn yn dod a'r holl dystiolaeth o'r holl ymyriadau cyffredin a geir ynghyd, er mwyn adnabod arfer da.

Mae'r mwyafrif o'r rhai sy'n berchen ar gi neu gŵn yn cymryd cyfrifoldeb ac yn glanhau ar ôl eu ci, ond oherwydd nad yw llond llaw o berchnogion yn gwneud hyn, achosir perygl iechyd difrifol. Dangosa'r data a gesglir drwy arolygon dilysu y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS yn Saesneg), yn o gystal ag arolygon allanol eraill, ei fod yn fater sy'n parhau yn broblem ar strydoedd Cymru. Hefyd gwelwyd cynnydd bach yn y nifer o achosion a nodwyd yn ddiweddar. Mae'r risg i iechyd yn sgil baw cŵn, er yn brin, yn gallu cael effaith fawr, yn benodol drwy haint *Toxocariasis* (a achosir gan barasitiaid mewn baw cŵn).

Yn debyg iawn i arwyddion eraill o ansawdd amgylcheddol gwael fel sbwriel a thipio anghyfreithlon, cai baw cŵn effaith fawr ar y gymdeithas ac economi. Mae'r gost o lanhau i gynghorau yng Nghymru a Lloegr yn £22miliwn y flwyddyn.¹

Mae'r dystiolaeth bresennol o'r DU ac ymhellach yn awgrymu fod cyfuniad o ddulliau, yn benodol y rhai sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth, nid yn unig yn dangos y canlyniadau gorau, ond hefyd yn fwy cost effeithiol. Yn debyg iawn mae technegau marchnata cymdeithasol yn gallu cael effaith fawr yn ogystal â bod yn gost effeithiol.

Mae'r papur yma yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer gorfodaeth ac ymgyrchoedd effeithiol, yn ogystal ag edrych ar ddulliau ymyrru sy'n llai cyffredin. Mae'n cynnwys canlyniadau o arbrawf marchnata cymdeithasol a wnaethom ni mewn tri rhanbarth yng Nghymru ym mis Hydref 2015. Nid yw'r canllaw yma yn un terfynol, ac nid yw'n dirymu'r angen i wneud defnydd o gyngor cyfreithiol priodol ar gyfer sefyllfaoedd penodol neu alw am orchmynion. Ond mae'n rhoi cynnig ar ddarparu fframwaith ar gyfer meddwl yng nghylch ymddygiad ac ymyrraeth briodol, tra hefyd yn adnabod y cyfyngiadau ariannol sylweddol sy'n hwynebu awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad yn diweddu gyda chyfres o argymelliadau eang ar gyfer pethau y gall y llywodraeth leol a cenedlaethol ei wneud i helpu diweddarau polisïau, a all gael eu trosi i gamau gweithredu ymarferol ac effeithiol.

Am gopi o'r adroddiad, cysylltwch â leq@keepwalestidy.org

¹ BBC. (2008). *How serious a problem is dog fouling?* <http://news.bbc.co.uk/1/hi/magazine/7469369.stm> (6.4.16)